# DANIEL, EVAN (1837 - 1904), clerigwr ac addysgwr

**Enw:** Evan Daniel
**Dyddiad geni:** 1837
**Dyddiad marw:** 1904
**Rhiant:** Sarah Davies (née Beach)
**Rhiant:** Evan Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr ac addysgwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd ym Mhontyp  l 4 Medi 1837, yn fab i Evan Davies (adeiladydd) a'i wraig Sarah Beach. Yn 1856 aeth i Goleg Hyfforddi S. John's yn Battersea; yn 1859 penodwyd ef yn ddarlithydd yn y coleg, ac o 1866 hyd 1894 bu'n brifathro iddo. Cymerodd urddau eglwysig yn 1863, ac yn 1870 graddiodd, gydag anrhydedd ac amryw wobrwyon, yng Ngholeg y Drindod yn Nulyn. O 1873 hyd 1879 bu'n aelod o Fwrdd Ysgolion Llundain. Penodwyd ef yn 1894 yn ficer Horsham, lle y bu farw 27 Mai 1904; yr oedd yn briod, a chanddo naw o blant. O'i werslyfrau niferus, y mwyaf llwyddiannus oedd *The Prayer-Book, its History and Contents*, 1877, a aeth i'w ugeinfed argraffiad cyn iddo ef farw. Yr oedd yn ganon mygedol yn Rochester.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

Yr ail atodiad i'r *Oxford Dictionary of National Biography*

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 9414926

Wikidata: Q18875883

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu